# Welsh European Funding Office
# Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# SCoRE Cymru

**Cefnogi Ymchwil Gydweithredol ac arloesedd yn Ewrop**
Supporting Collaborative Research and Innovation in Europe

## CANLLAWIAU A CHWESTIYNAU CYFFREDIN (Fersiwn 3)

Mae **SCoRE Cymru** yn darparu grantiau er mwyn sbarduno cyfranogiad **sefydliadau o Gymru** mewn rhaglenni ymchwil gydweithredol ac arloesedd yn Ewrop ac yn arbennig rhaglen **Horizon 2020** yr Undeb Ewropeaidd.

**Beth ydym yn ei gyllido?**

*Teithio*
Y prif gostau teithio a llety sy'n gysylltiedig â:
- nodi ac adeiladu consortia,
- trafod contractau.

*Datblygu Cynigion*
Cost arbenigedd wedi'i is-gontractio ar gyfer:
- ysgrifennu a/neu ddatblygu tystiolaeth ar gyfer cynigion am gyllid,
- trafod a chwblhau trefniadau a/neu gontractau consortiwm.

**Pa lefel o gymorth grant sydd ar gael?**

| **Categori** | **Uchafswm grant**[1] | **Uchafswm cyfradd grant**[1] |
|---|---|---|
| Teithio | | |
| Busnes Bach a Chanolig (BBaCh) | £1,000 | 100% |
| Sefydliad Addysg Uwch (SAU) | £1,000 | 50% |
| SAU sy'n mynychu gyda phartner BBaCh o Gymru | £1,000 | 75% |
| Sefydliad arall[2] sy'n mynychu gyda phartner BBaCh o Gymru neu SAU o Gymru | £1,000 | 50% |
| Datblygu cynnig | | |
| Partner cydlynol, cais cyntaf[3] | £10,000 | 75% |
| Partner cydlynol, nid cais cyntaf | £10,000 | 50% |
| Nid partner cydlynol, cais cyntaf | £5,000 | 75% |
| Nid partner cydlynol ac nid cais cyntaf | £5,000 | 50% |
| Ar gyfer cais Offeryn BBaCh Cam 1 | £5,000 | 75% |
| Ar gyfer trafodaethau a chytundeb consortiwm | £5,000 | 50% |

***D.S. Mae'n rhaid i'r costau ddigwydd ar neu ar ôl dyddiad cymeradwyo'r cais. Cysylltwch ag Uned Horizon 2020 cyn gwario unrhyw gostau.***

*1) Bydd swm a chyfradd y grant yn cael eu hasesu fesul cais ar sail ffactorau fel tebygoliaeth o gael canlyniad llwyddiannus, enillion potensial ar fuddsoddiad ac unrhyw risgiau a nodwyd. Gall cyfraddau grant fod yn uwch mewn achosion eithriadol.*
*2) Er enghraifft, cwmni mawr neu sefydliad sector cyhoeddus. Bydd sefydliadau trydydd sector naill ai'n cael cyfradd BBaCh neu gwmni mawr, yn seiliedig ar ddiffiniad yr UE o BBaCh (gweler tud. 7 isod).*
*3) Cais cyntaf gan sefydliad am gyllid ymchwil gydweithredol ac arloesedd Ewropeaidd neu'r Offeryn BBaCh.*

**Pwy all wneud cais?**

Mae'r grant ar gael i bob sefydliad yng Nghymru sydd â diddordeb mewn ymchwil gydweithredol ac arloesedd Ewropeaidd, ond mae'n canolbwyntio ar BBaChau a SAU a allai wneud cais i Horizon 2020.

Gallai cynlluniau eraill Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru fod yn fwy priodol ar gyfer ymweld ag arddangosfeydd masnach, gwneud cais am gyllid y Bwrdd Strategaeth Technegol neu gynnal astudiaethau dichonoldeb technoleg – ffoniwch 03000 6 03000 am fwy o wybodaeth.

Bydd blaenoriaeth i geisiadau o'r sectorau/meysydd isod, ond bydd unrhyw gynnig sy'n cynnig adenillion sylweddol ar fuddsoddiad yn cael ei ystyried.

Mae cymorth busnes Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar 9 sector, sef:
- TGCh,
- Ynni a'r amgylchedd,
- Deunyddiau datblygedig a gweithgynhyrchu,
- Diwydiannau creadigol,
- Gwyddorau bywyd,
- Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol,
- Adeiladu,
- Bwyd a Ffermio, a
- Twristiaeth.

Mae Gwyddoniaeth i Gymru ac Arloesi Cymru yn nodi pedwar maes y mae gan Gymru gryfderau ymchwil ac arloesedd ynddynt ar hyn o bryd lle mae yna gyfleoedd economaidd cadarn:
- Gwyddorau bywyd ac iechyd,
- Carbon isel, ynni a'r amgylchedd,
- Peirianneg ddatblygedig a deunyddiau, a
- TGCh a'r economi ddigidol.

**Beth yw'r costau cymwys?**

*Teithio*

Costau teithio a llety sy'n deillio o nodi ac adeiladu consortia a/neu drafod contractau i hwyluso ceisiadau am gyllid ymchwil gydweithredol ac arloesedd Ewropeaidd fel Horizon 2020. Gallai costau gynnwys:

- Hedfan rhad, trenau, llongau ac ati
- Llety mewn gwesty rhad, gan gynnwys brecwast os yw'n rhan o'r pris,
- Teithio o fewn gwlad (bws/trên/tacsi),
- Teithio i faes awyr yn y DU,
- Trafnidiaeth gyhoeddus, car preifat ar gyfradd o 45c y filltir),
- Parcio mewn maes awyr,
- Ffioedd cymryd rhan mewn digwyddiadau.

Mae'n rhaid i'r dull teithio gynnig gwerth am arian o'i gymharu ag opsiynau eraill.

Nid yw costau bwyd/cynhaliaeth yn gymwys ac eithrio brecwast os yw'n rhan o'r gost am aros mewn gwesty.

Pan fo diben, tarddiad a natur mynychwyr, cost a phellter yn debyg i'r teithio tramor a gynorthwyir gan y cynllun hwn, bydd teithio i gyrchfannau yn y DU yn gymwys.

Efallai y caniateir teithio i gyrchfannau y tu allan i'r UE os yw'r ymweliad yn targedu galwad am gyllid sy'n ymwneud â chyfranogwyr trydedd gwlad neu os yw'r teithio'n gymwys fel arall a bod tystiolaeth nad oes opsiynau ar gyfer cyflawni'r un amcanion ar gael yn yr UE.

Oni bai bod cyfiawnhad penodol, gellir cynorthwyo un person yn unig o bob sefydliad, ond bydd ceisiadau cysylltiedig gan wahanol sefydliadau'n cael eu hystyried.

Efallai y bydd modd mynd dros y terfyn o £1,000 mewn amgylchiadau eithriadol os byddai'r terfyn yn peryglu amcanion y cymorth.

Gellir ystyried costau eraill mewn perthynas â theithio fesul achos, er enghraifft llogi ystafell ar gyfer cyfarfod consortiwm.

Gweler hefyd yr adran Cymhwysedd Cyffredinol isod.

*Datblygu Cynigion*

Gall costau gynnwys:

- Arbenigedd wedi'i is-gontractio mewn ysgrifennu a/neu ddatblygu tystiolaeth ar gyfer cynigion perthnasol am gyllid. Gallai hyn gynnwys arbenigedd ar effaith neu dreiddiad yr ymchwil arfaethedig i'r farchnad.
- Arbenigedd wedi'i is-gontractio er mwyn galluogi trafodaethau effeithiol a chwblhau cytundebau consortiwm a/neu gontractau.
- Costau teithio ar gyfer isgontractwyr.

Nid yw gwaith cwmpasu cychwynnol ar gyfer opsiynau cyllid yn gymwys oherwydd gall Pwyntiau Cyswllt Cenedlaethol a sefydliadau eraill helpu i nodi galwad a phartneriaid perthnasol. Cysylltwch ag Uned Horizon 2020 am fwy o wybodaeth.

Gallai astudiaethau dichonoldeb cyffredinol nad ydynt yn targedu galwad benodol gyda phartneriaid penodol (os oes eu hangen ar gyfer yr alwad) gael cymorth mwy priodol drwy gynlluniau eraill Llywodraeth Cymru neu'r Bwrdd Strategaeth Technoleg. http://business.wales.gov.uk/cy/zones/business-finance

Os yw'r ymgynghorydd a ddewisir eisoes wedi ymrwymo i'r gwaith ar y cynigion, yna ni fydd y cais yn debygol o fod yn gymwys am gymorth grant. Os yw'r ymgynghorydd a ddewisir yn bwriadu bod yn rhan o'r consortiwm ar gyfer y cynnig, yna gall WEFO ystyried gostwng lefel y grant.

Ar gyfer contractau dros £4,999.99, mae angen tri dyfynbris gan wahanol ymgynghorwyr. Gall y meini prawf ar gyfer dewis y contractwr buddugol gynnwys ansawdd yn ogystal â phris; byddwn yn gofyn am adroddiad cryno i ddangos y dewiswyd y contractwr yn deg ac yn agored.

Bydd angen un dyfynbris yn unig os yw'r contract o dan £5,000, ond efallai y bydd angen tystiolaeth o arbenigedd y contractwr.

*Cymhwysedd cyffredinol*

- Mae'n rhaid i'r costau cymwys ddigwydd ar neu ar ôl y dyddiad y mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r cais, ac eithrio eich bod wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig i'r gwrthwyneb gan Uned Horizon 2020. Ymrwymiadau i dalu yw'r costau hyn, fel costau hedfan a gwestai na ellir eu hadfer yn llawn os bydd angen canslo.
- Dylid defnyddio cwmnïau teithio rhad a gwestai rhad. Byddwn yn disgwyl i gostau gwestai fod o fewn cyfraddau meincnod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac mae'n debygol y bydd terfyn ar wariant cymwys pan fydd y cyfraddau'n uwch. http://www.hmrc.gov.uk/employers/emp-income-scale-rates.htm
- Nid yw treuliau cynhaliaeth dyddiol a/neu adloniant corfforaethol yn gymwys ac eithrio brecwast sy'n rhan o gost gwesty.
- Nid yw costau cymwys yn cynnwys Treth Ar Werth (TAW) ac eithrio lle nad yw'r ymgeisydd yn gallu adennill TAW.
- Mae costau na ellir dangos eu bod yn benodol i gynnig neu ddarpar gynnig yn cael eu heithrio, e.e. costau teithio rheolaidd, gweithgareddau masnachu cyffredinol neu arbenigedd arbenigol parhaus/a gedwir.
- Bydd angen i chi gadarnhau nad oes gennych chi ffynhonnell gyllid amgen.

**Beth yw'r meini prawf asesu?**

Bydd Uned Horizon 2020 WEFO yn asesu pob cais, gan ofyn am gyngor o fewn Llywodraeth Cymru fel sy'n briodol. Mae'r asesu hefyd yn cynnwys archwiliad sylfaenol o hyfywedd ariannol busnesau. Hefyd gall yr Uned ofyn am gyngor technegol allanol lle bo angen, er enghraifft gan Bwyntiau Cyswllt Cenedlaethol neu'r Bwrdd Strategaeth Technoleg, ond bydd yn hysbysu ymgeiswyr os bydd yn gwneud hynny.

Bydd eich cais yn cael ei farnu yn erbyn y meini prawf canlynol.

*Pob Cais*

- Pa mor dda mae'r ymgeisydd wedi dangos ei fod yn sefydliad o Gymru sydd â'r potensial yn y lleoliad yng Nghymru i gymryd rhan mewn cynnig perthnasol.
- Mae'r costau cymwys a ragwelir wedi'u nodi'n glir ac yn rhesymol.
- Mae'r gyfradd grant y gofynnir amdani yn un a ganiateir ac yn rhesymol.
- Graddfa'r adenillion disgwyliedig ar fuddsoddiad i Gymru, e.e. os yw'r cynnig Ewropeaidd yn llwyddiannus, pa lefel o gyllid sy'n debygol o gael ei ddyfarnu i'r ymgeisydd ac unrhyw bartneriaid eraill o Gymru.
- Pwysigrwydd y sector neu'r maes ymchwil/arloesedd i Gymru.
- Mae'r ymgeisydd yn ariannol hyfyw.
- Cydymffurfiaeth â chyfraith Cymorth Gwladwriaethol a rheolau caffael, lle bod hynny'n berthnasol.

*O ran teithio*

- Cryfder y cyfiawnhad am y daith, e.e. pa alwad/thema sy'n cael ei thargedu a pham.
- Perthnasedd profiad a chymwysterau'r sawl sy'n teithio.
- Perthnasedd y digwyddiad(au)/cyfarfod(ydd) arfaethedig, gan gynnwys mynychwyr eraill.

*O ran Datblygu Cynigion*

- Mae maes thematig penodol a dyddiad cau cysylltiedig ar gyfer cyflwyno cynigion wedi'u nodi.
- Cryfder y dystiolaeth bod y cynnig prosiect wedi'i gwmpasu'n ddigonol, gan gynnwys Pwyntiau Cyswllt Cenedlaethol, cyllideb, ymrwymiad partneriaid a'r amserlen.
- Mae digon o amser cyn y dyddiad cau cysylltiedig i ddatblygu cynnig cymwys.

WEFO, fel rhan o Lywodraeth Cymru, fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol am geisiadau, hawliadau, taliadau ac unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â SCoRE Cymru.

**Pa mor fuan y bydda i'n derbyn ymateb i'm cais?**

Byddwn yn cysylltu â chi'n fuan ar ôl derbyn y cais ac yn eich annog i siarad â ni cyn gwneud cais. Os yn bosibl, dylid cyflwyno ceisiadau o leiaf bythefnos cyn y byddwch yn debygol o wario'r costau cymwys. Rydym yn ceisio prosesu ceisiadau dilys mewn llai na phythefnos, ond os nad ydym yn derbyn ceisiadau o fewn amserlen resymol, neu os yw'r ceisiadau heb eu cwblhau'n ddigonol, yna gallwn eu gwrthod.

Os yw'ch cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr cynnig. Gellir cymeradwyo ceisiadau gydag amodau.

**Sut alla' i hawlio'r grant?**

*Ar gyfer teithio*

Bydd taliadau'n cael eu gwneud yn sgil cyflwyno'r canlynol yn brydlon:

- Tystiolaeth o wariant (derbynebau gwreiddiol ac ati) o'r holl gostau cymwys, gan gynnwys datganiad milltiroedd teithio os yw'n berthnasol.
- Ffurflen adroddiad teithio wedi'i chwblhau (a gaiff ei darparu gyda'ch llythyr cynnig), yn rhoi manylion y gweithgaredd a chanlyniadau.
- Ffurflen hawlio wedi'i chwblhau.
- Anfoneb ar bapur pennawd eich sefydliad, yn nodi'r swm o gyllid y gofynnir amdano gan Lywodraeth Cymru.

*Ar gyfer Datblygu Cynigion*

Bydd taliadau'n cael eu gwneud yn sgil cyflwyno'r canlynol yn brydlon:

- Tystiolaeth o wariant (anfonebau gwreiddiol wedi'u talu, derbynebau ac ati) o'r holl gostau cymwys.
- Ffurflen hawlio wedi'i chwblhau.
- Anfoneb ar bapur pennawd eich sefydliad, yn nodi'r swm o gyllid y gofynnir amdano gan Lywodraeth Cymru.

ac un o'r canlynol fel sy'n briodol

- Copi o'r cynnig wedi'i gwblhau fel y cyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) ynghyd â derbynneb gan y CE yn profi bod y cynnig wedi'i ffeilio cyn y dyddiad cau.
- Copi o'r cytundeb consortiwm wedi'i lofnodi neu gontract y CE.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw 10% o'r swm sy'n cael ei hawlio neu £500 (pa bynnag sydd fwyaf) nes derbyn copi o Adroddiad Cryno perthnasol ar Werthusiad y CE.

**Beth os na fydd fy nodau'n cael eu cyflawni?**

Bydd hawliadau am wariant am ddatblygu cynigion nad ydynt yn cael eu cyflwyno i'r CE neu sy'n methu'r dyddiad cau perthnasol, neu deithio nad yw'n cyflawni'r diben disgwyliedig, yn cael eu hystyried, ond mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i ddal unrhyw daliad yn ôl os yw'r rhesymau a roddir yn annerbyniol.

**A fydd angen i mi gadw cofnodion o'm gwariant?**

Bydd Uned Horizon 2020 WEFO yn cynghori ar ofynion cadw dogfennau, ond yn gyffredinol mae'n rhaid cadw anfonebau, taflenni amser, derbynebau a chofnodion eraill sy'n ymwneud â gwariant cymwys am 5 mlynedd o ddyddiad unrhyw ddyfarniad sy'n deillio o'r cais hwn.

Mae'n rhaid cadw dogfennau ynghylch cymorth de minimis am 3 blynedd er mwyn cydymffurfio â chyfraith gystadleuaeth. Mae'n rhaid cadw dogfennau ynghylch dyfarniadau o dan y Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol am 10 mlynedd.

Mae'n rhaid i'r holl wybodaeth fod ar gael i Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, eu holynyddion neu eu hasiantau penodedig ar gais at ddibenion archwilio.

**A fydd gwybodaeth am fy nghais yn cael ei rhannu gydag unrhyw un arall?**

O dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth, efallai y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddatgelu maint y grant SCoRE Cymru a ddyfernir ac enw'r derbynnydd. Mae cod ymarfer cyfredol Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd yr holl wybodaeth a gofnodir a ddarperir gan drydydd parti yn cael ei hystyried ar gyfer ei datgelu ar gais. http://cymru.gov.uk/publications/accessinfo/?skip=1&lang=cy.

Wrth asesu eich cais, efallai y bydd Uned Horizon 2020 yn gofyn am gyngor ar ei deilyngdod o fewn Llywodraeth Cymru. Gall yr Uned hefyd ofyn am gyngor technegol allanol os oes angen, ond bydd yn rhoi gwybod i ymgeiswyr am hynny.

Bydd Llywodraeth Cymru am ddefnyddio testun y cytunir arno gyda chi at ddibenion cyhoeddusrwydd yn ymwneud â llwyddiant unrhyw gais a/neu unrhyw lwyddiant dilynol y gallech ei gael wrth gael cyllid ymchwil/arloesedd Ewropeaidd.

**A yw rheolau Cymorth Gwladwriaethol yn berthnasol i'r grant?**

Bydd angen i ymgeiswyr ystyried y rheolau Cymorth Gwladwriaethol wrth wneud cais am grant.

Nid yw grant ar gyfer gweithgareddau anfasnachol a gynhelir gan Sefydliadau Addysg Uwch yn debygol o gyfrif fel Cymorth Gwladwriaethol.

O ran BBaChau, mae hyd at 50% o gostau ymgynghori wedi'u cwmpasu gan y Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol. Byddai pob elfen arall yn cyfrif tuag at eu lwfans *de minimis*.

O ran sefydliadau nad ydynt yn BBaChau, bydd yr holl grant yn cyfrif tuag at eu lwfans *de minimis*.

Mae rhai cyfyngiadau ar sut y gellir defnyddio lwfans de minimis cwmni, gan gynnwys terfyn uchaf o €200,000 o gymorth cyhoeddus mewn cyfnod cyllidol o dair blynedd.

**Beth yw'r diffiniad o BBaCh (busnes bach a chanolig)?**

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried cwmni yn BBaCh os oes:

- llai na 250 o weithwyr cyflogedig;
- trosiant blynyddol o lai na €50 miliwn neu nad yw cyfanswm ei fantolen flynyddol yn fwy na €43 miliwn; ac
- mae'n annibynnol*

*Mentrau annibynnol yw rhai lle nad yw mwy na 25% o'r cyfalaf neu hawliau pleidleisio yn eiddo i un neu fwy o fentrau sydd y tu allan i'r diffiniad o BBaCh. Gellir mynd y tu hwnt i'r trothwy hwn pan fo menter yn eiddo i gorfforaeth

buddsoddiad cyhoeddus, cwmni cyfalaf menter neu fuddsoddwyr sefydliadol eraill, a bwrw nad oes ganddynt unrhyw reolaeth.

**Sut alla' i wneud cais?**

I ddechrau, cysylltwch ag Uned Horizon 2020 WEFO (yn Horizon2020@wales.gsi.gov.uk neu drwy Linell Gymorth WEFO ar 0845 010 3355) i drafod eich cais.

Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais.

Os nad oes gennych chi brofiad blaenorol o ymchwil gydweithredol ac arloesedd Ewropeaidd, bydd yn werth i chi ofyn am gyngor i ddechrau. Mae sefydliadau amrywiol yng Nghymru, y DU ac Ewrop a all ddarparu cyngor ac arweiniad. Cysylltwch ag Uned Horizon 2020 neu ewch i wefan WEFO yn http://wefo.wales.gov.uk